# EGWYDDORION:

## TAI YN GYNTAF I IEUENCTID

**Mae Tai yn Gyntaf i Ieuenctid yn fodel o dai a chymorth sy'n debygol o fod yn effeithiol pan ddarperir ef i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd wedi, neu sydd yn, cael profiad o sawl problem gymhleth (er enghraifft, trawma, problemau iechyd meddwl a/neu broblemau gyda defnyddio sylweddau) ac sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn aml iawn mae'r rhain yn bobl ifanc lle nad yw gwasanaethau sy'n bodoli eisoes wedi bod yn effeithiol, neu bobl ifanc sydd wedi cael eu gadael i lawr gan systemau sefydledig (er enghraifft, dangoswyd o fewn y DU ei fod yn effeithiol pan gynigir ef i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal).**

### EGWYDDORION

1. Mae gan bobl ifanc yr hawl i gael cartref, heb unrhyw ragamodau – cartref sy'n fforddiadwy, yn addas i fyw ynddo, yn gymwys yn gorfforol ac yn ddiwylliannol, a lle gallant gael mynediad at wasanaethau, addysg a chyfleoedd am waith. Gall pobl ifanc ddewis byw ar eu pennau eu hunain, neu mewn llety a rennir, neu yn agos at deulu neu ffrindiau – bydd pobl ifanc yn cael eu cartrefu gan gymryd dewisiadau o'r fath i ystyriaeth.

2. Mae tai a chymorth yn cael eu gwahanu, a bydd y cymorth yn dilyn y person ifanc, pa lety bynnag y byddant yn ei ddewis, na beth fydd yn digwydd gyda phob tenantiaeth.

3. Darperir cymorth hyblyg cyhyd ag y bo'r person ifanc yn dymuno ei gael, a hynny gan arbenigwyr ym maes cefnogi pobl ifanc, sy'n gallu adnabod eu hanghenion penodol a'r heriau a wynebir gan bobl ifanc. Bydd y cymorth yn cymryd i ystyriaeth y ffaith y gallai dewisiadau a blaenoriaethau person ifanc newid.

4. Bydd darparwyr cymorth, gan gydnabod y gallai pwyntiau trosglwyddo fod yn arbennig o anodd, yn gweithio gyda'r person ifanc i benderfynu a yw'r trosglwyddiadau'n angenrheidiol – o wasanaethau pobl ifanc i wasanaethau oedolion, er enghraifft. Bydd y person ifanc yn gwneud dewisiadau ynghylch y mathau o drosglwyddiadau maent yn dymuno eu gwneud, a bydd darparwyr cymorth yn gweithio i sicrhau bod trosglwyddiadau aml-asiantaeth yn cael eu gweithredu mewn modd llyfn, sensitif ac effeithiol.

5. Mae gan unigolion ddewis a rheolaeth dros y modd y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau, a fydd yn dewis dull o ymgysylltu gweithredol tra maent yn gweithio gyda'r person ifanc. Disgwylir i bobl ifanc ymgysylltu â gwasanaethau – ond cyfrifoldeb y darparwr, yn hytrach na'r person ifanc, yw dod o hyd i'r ffordd orau o ymgysylltu.

6. Mae'r gwasanaeth wedi ei seilio ar gryfderau, nodau a dyheadau'r bobl ifanc.

7. Os yw cleient yn ymddwyn mewn modd a allai fod yn niweidiol i'w hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u lles, bydd gwasanaethau'n gweithredu mewn dull fydd yn lleihau niwed. Os bydd rhywun mewn perygl difrifol o'u niweidio eu hunain neu eraill, bydd yr asiantaethau perthnasol yn gweithredu mewn dull amddiffynnol.

8. Darperir y gwasanaeth mewn modd sy'n seiliedig ar gryfderau, yn seicolegol-wybodus, trawma-wybodus a rhywedd-wybodus, yn sensitif ac yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig.

9. Bydd y gwasanaethau neu'r cymorth a gynigir i unigolyn mewn gwasanaeth Tai yn Gyntaf i Ieuenctid yn cymryd amser i ddod i ddeall diddordebau ac anghenion y person ifanc, a'u dehongli cymunedol, fel bod modd iddynt gefnogi'r cleient i adeiladu cysylltiadau gyda chymunedau o ran diddordebau yn ogystal â chymunedau o ran lleoliad.

10. Mae'r ystod ehangaf o wasanaethau ar gael o'r cychwyn cyntaf, fel bod dewis ystyrlon yn cael eu cynnig i berson ifanc, pan fo'r cleient yn teimlo'n barod i ymgysylltu â'r gwasanaethau hynny.

Dysgwch fwy ar wefan Cymorth Cymru
E-bost: HousingFirst@cymorthcymru.org.uk